Seindorf Beaumaris Band

**Cylchlythyr y Cyfeillion Haf 2015**

# Diwrnod i'w gofio..

Aeth **Band Canolradd Beaumaris**, dan ofal Bethan Evans, i gystadlu ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Prydain ym Manceinion, yn gynharach eleni.

Mae Categori Iau Pencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Prydain yn agored i fandiau o gerddorion dan 16 oed. Roedd yn her sylweddol - gydag 11 o fandiau, gan gynnwys pencampwyr llynedd, Fred Longworth High School o Fanceinion yn cystadlu.

Yn ôl y beirniaid roedd nodau agoriadol eu perfformiad yn "gryf"ac yn "hyderus"ac roedd boddhad y cerddorion ifanc yn amlwg wrth iddynt ymlacio.

Talodd yr ymarferion ar eu canfed gyda pherfformiad arbennig o'r emyn *Aurelia*- yr unig fand i lwyddo gyda'r dynamig ac i frawddegu'n gywir, yn ôl y beirniaid.

Yna, cafwyd perfformiadau penigamp o *Tragedy* gan y Bee Gees a dwy gân o sioe gerdd *The Lion King*; *Can You Feel The Love* a *Circle of Life* i gloi'r rhaglen.

Cafwyd llond neuadd o gymeradwyaeth wrth i'r cerddorion ifanc gymryd eu bow.

Pan gyhoeddwyd mai Band Iau Beaumaris oedd yn fuddugol, dwi'n siwr fod holl drigolion Ynys Môn wedi clywed y floedd! Roedd yn ddiwrnod arbennig arall yn hanes Seindorf Beaumaris ac mae'n brawf o'r talent sy'n ein teulu o fandiau fod y Band Iau wedi mynd i Fanceinion a threchu bandiau gorau Prydain ar y cynnig cyntaf!

Cofiwch, cewch glywed eu rhaglen yn y Cyngerdd Haf.



*Llongyfarchiadau mawr i Bethan a'r criw*

**Cyngerdd Haf y Band**

**Dydd Gwener 10fed Gorffennaf 2015 7.30pm**

**Tocynnau ar werth rwan yng Nghanolfan Beaumaris.**

**Archebwch drwy ffonio 01248 811200**

**Gyfeillion – d'wedwch wrth eraill!**

Rydan ni bob amser yn awyddus i ddenu Cyfeillion newydd. Mae eich cyfraniad yn allweddol i lwyddiant ein cerddorion ifainc – yn help i brynu offerynnau, gwisgoedd, a phethau angenrheidiol eraill. **Mae nifer o'n Cyfeillion bellach yn derbyn y cylchlythyr yma drwy ebost, sy'n arbed costau i ni. Os hoffech ymuno â nhw, ebostiwch** friendsofbeaumarisband@gmail.com

***Band y Dechreuwyr*** – Bydd 45 o blant y **Band Iau** yn agor ein cyngerdd haf, dan ofal Fred Evans. Yn amrywio o bedair hyd at 11 oed, bydd nifer yn perfformio o flaen cynulleidfa am y tro cyntaf. Mae 20 wedi ymuno yn y chwe mis diwethaf! Mi fyddan nhw'n perfformio caneuon poblogaidd maen nhw'n eu mwynhau, er ein difyrrwch ni ar y noson. Pob hwyl iddyn nhw!

## Hwyl yn y Canolbarth

Ar ôl rhai misoedd o annog a chrefu ar griw yr **LSW**, llwyddodd Fred i ddwyn perswâd ar y Band i gystadlu am y tro cyntaf erioed!

Aeth yr LSW i'r Drenewydd i'r gystadleuaeth Gorymdaith ac Emyn flynyddol ... er i'r band basio ar y cyfle i orymdeithio ar hyd y Stryd Fawr! Wrth gwrs, nid y cystadlu sy'n bwysig i'r LSW, ond yr elfen gymdeithasol a'r cyfle i chwythu a chwarae!

A chafwyd diwrnod hyfryd yn yr heulwen yn y canolbarth yn hel clecs a gwrando ar yr holl fandiau eraill gyda'r uchafbwynt i ni oll yn dod gyda pherfformiad bendigedig y Seindorf Hŷn.

Llwyddodd y **Band Hŷn**, dan arweiniad Gwyn Evans, i ennill y gystadleuaeth am yr ail flwyddyn yn olynol gyda'r Band hefyd yn ennill y wobr am yr Orymdaith Orau (The Cossack), am yr Adran Fâs orau ac hefyd am yr unawdydd gorau (Euphonium).

Ymhlith y Band Hŷn yn Y Drenewydd roedd sawl aelod o'r **Band Ieuenctid** sydd wedi profi llwyddiant eto eleni.

Cafodd y Band eu gwobrwyo â'r brif wobr cerddoriaeth ym Mhencampwriaeth Adloniant Bandiau Pres Ieuenctid Prydain yn Blackpool.

Llwyddodd Pippa Scourse i sicrhau'r wobr am yr Unawdydd Arbennig am yr ail flwyddyn yn olynol ond, yn anffodus, bu raid iddynt fodloni ar yr ail safle yn y brif gystadleuaeth.

Ar ôl eu holl waith caled, bydd y Band Ieuenctid yn mynd ar daith i Norwy fis Awst i chwarae mewn dwy gyngerdd gyda Tasta Band o Stavanger a Phencampwyr Bandiau Pres Norwy, Stvanager Brass. Cewch yr hanes yn y rhifyn nesaf o’r Cylchlythyr yma!

***FE WELWCH LUNIAU EIN GWETHGAREDDAU AR FACEBOOK: SEINDORF BEAUMARIS BAND***

## Neges gan ein Cadeirydd

Mae hi wedi bod yn flwyddyn ardennig unwaith eto i’n cerddorion ifanc – ac i’r rhai sy’ ddim cweit mor ifanc!

Rydan ni’n falch iawn ohonyn nhw, nid yn unig am eu llwyddiant wrth gystadlu a chadw cyngherddau, ond am fod yn esiamplau o bobol ifainc ar eu gorau. Rydan ni wedi derbyn sylwadau hyfryd gan bobl am eu hymddygiad gwych, eu cyfeillgarwch yn ogystal â’u gallu cerddorol.

Fyddai dim o hyn yn bosib heb ein cyfarwyddwyr cerdd, a hoffwn ddatgan ein diolch didwyll i Gwyn, Fred a Bethan ynghyd â’r cerddorion eraill sy’n rhoi cymorth diflino. Mae cymaint ohonoch yn rhoi eich amser a’ch talent – DIOLCH O GALON.

Mae marwolaeth diweddar Ruth Gwilliam wedi’n tristhau ni i gyd ac anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Bari a’r teulu oll wrth i ninnau golli gwir ffrind i’r band.

Daeth Ruth a minnau i gysylltiad efo’r band gyntaf flynyddoedd yn ôl pan aeth Fred ac eraill ati i ailffurfio’r band gyda ieuenctid ysgolion lleol. Roedd Bari a Ben, ein meibion, yn bum mlwydd oed ar y pryd a’n gwaith ni fel rheini oedd trefnu boreau coffi, raffl ac unrhyw beth arall i godi arian. Fyddai ‘stafell ymarfer y band bryd hynny byth wedi pasio unrhyw reolau iechyd a diogelwch – roedd rhaid osgoi rhai darnau o’r llawr oherwydd maint y tyllau ynddo! A bocsys wyau oedd ganddon ni ar y waliau i help efo’r awcwstics! Rydan ni wedi dod y nein blaeanau gryn dipyn ers hynny , diolch yn rhannol i gefnogaeth gyson ein cyfeillion triw. Diolch i chi a phob dymuniad da. ***Patsy Thomas, Cadeirydd***

***Ensemblau o’r Band Hŷn yn perfformio***.. ..21 Mehefin – Castell Penrhyn; 9 Gorffennaf – Seremoni Gwobrau Chwaraeon Ieuenctid Môn; 12 Medi – Gŵyl Fwyd Beaumaris.